cbac wjec

# WEDI YMRWYMO I BARHAU I'CH CEFNOGI CHI

## FFIOEDD ARHOLIADAU: I BLE MAE'R ARIAN YN MYND?

Fel elusen, rydym yn sicrhau ein bod yn ail-fuddsoddi ein hincwm er mwyn parhau i wella'r cynhyrchion, y gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd ar gael gennym i ysgolion a cholegau ledled Cymru.

Mae popeth a wnawn yn gynaliadwy ac wedi'i fwriadu i gefnogi buddiannau tymor hir ein cymunedau addysg i gyd. Ni hefyd yw'r unig fwrdd sy'n cynnig ein holl gymwysterau, deunyddiau cefnogi, adnoddau a dysgu proffesiynol drwy gyfrwng y Gymraeg.

---

## CYMWYSTERAU I YMDDIRIED YNDDYNT A CHYLCH PARHAUS O GEFNOGAETH

### DATBLYGU CYMWYSTERAU O SAF

**Caiff ein manylebau dwyieithog, dibynadwy eu datblygu gyda thîm o arbenigwyr pwnc, ac maent yn cael eu llunio i helpu eich myfyrwyr chi i gyrraedd eu potensial.**

**Mae'r dewis ehangaf posibl i bynciau ar gael, a defnyddiwn ein hincwm i sicrhau ein bod yn gallu noddi cymwysterau llai o faint.**

### HYFFORDDIANT PROFFESIYNOL DAN ARWEINIAD ARBENIGWYR

**Cynigiwn becyn hyfforddi cynhwysfawr ar gyfer pob athro sy'n defnyddio ein manylebau gyda phob sesiwn ragarweiniol yn rhad ac am ddim.**

**Arweinir ein cyrsiau wyneb yn wyneb ac ar-lein gan arbenigwyr pwnc a chynhelir digwyddiadau ledled y wlad.**

### CYSYLLTIAD UNIONGYRCHOL AG ARBENIGWYR PWNC A CHEFNOGAETH CANOLFANNAU

**Gall athrawon gysylltu'n uniongyrchol ag arbenigwyr pwnc a thimau cefnogi canolfannau drwy gydol y flwyddyn.**

**Cyn athrawon yw ein swyddogion pwnc. Mae ganddynt brofiad helaeth yn yr ystafell ddosbarth, nhw sy'n arwain ar y gwaith o ddatblygu ein cymwysterau a gallant felly gynnig cyngor ac arweiniad arbenigol.**

### DEWIS HEB EI AIL O ADNODDAU DIGIDOL RHAD AC AM DDIM

**Yn wahanol i gyrff dyfarnu eraill, mae ein hadnoddau digidol ar gael am ddim i athrawon a myfyrwyr, gan gynorthwyo pob cam o'r broses ddysgu.**

**Rydym yn cydweithio'n agos ac yn ymgynghori ag athrawon ac arweinwyr y sector i lunio dewis o ddeunyddiau arloesol, amrywiol a deniadol i gefnogi ein cymwysterau.**

### SICRHAU GRADDAU TEG I FYFYRWYR

**Rydym yn ymrwymo'n llwyr i sicrhau bod pob dysgwr yn derbyn gradd deg; i wneud hyn rydym wedi buddsoddi adnoddau sylweddol mewn modelu ystadegol, cefnogaeth canolfannau a systemau TG newydd.**